# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Comisiynu Ymchwiliadau* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cyng. Nia Jeffreys – Arweinydd y Cyngor* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mai 2026** |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet:

a) Comisiynu y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a ble'n berthnasol y Swyddog Monitro i fwrw ymlaen a'r ymchwiliadau ac adolygiadau pellach a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad hwn yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder gan gynnwys :

(a) Cytuno y cylch gorchwyl a'r camau gweithredol,
(b) Adnabod a phenodi ymchwilydd annibynnol allanol lle bo'r gofyn
(c) Trefnu i dderbyn adroddiadau terfynol a chymryd camau i'w cyflwyno i'r pwyllgorau a fforymau perthnasol

b) I awdurdodi'r Prif Weithredwr i barhau i gyfathrebu gyda chyrff a phartneriaid perthnasol eraill ynglŷn â pha gamau ac ymchwiliadau y maent hwy yn eu cynnal a'r gwersi a ddysgwyd allasai fod o fudd i'r Cyngor

c) I awdurdodi'r Prif Weithredwr i ddargyfeirio adnoddau staff i gefnogi ymchwilwyr annibynnol i gwblhau'r gwaith

ch) I awdurdodi'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid ac Aelod Cabinet Cyllid, i flaenoriaethu a chymeradwyo dyraniadau o'r gronfa a sefydlwyd drwy'r drefn Bidiau Un tro 2026-27 i ariannu'r ymchwiliadau.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu ei ail Gynllun Ymateb ffurfiol oedd yn datgan nifer o amcanion wrth fynd ati i sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflawn a thrwyadl i bob argymhelliad ddeilliodd o waith yr Adolygiad Ymarfer Plant ac ein bod yn cryfhau ein systemau diogelu gymaint ag y bo modd. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr

penderfynwyd cefnogi gofyn i'r Cabinet ystyried pa ymchwiliadau pellach sydd eu hangen er mwyn cyfarch yr hyn sy'n mynd tu hwnt i ffiniau'r Adolygiad.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### Cefndir/ Cyflwyniad

3.1 Ym mis Ionawr 2025, mabwysiadwyd Cynllun Ymateb y Cyngor i droseddau cyn Bennaeth Ysgol Friars ac yn dilyn hynny sefydlwyd Bwrdd Ymateb i fonitro cynnydd y cynllun hwn. Cadeirir y Bwrdd yn annibynnol gan yr Athro Sally Holland ac mae nifer o gynrychiolwyr o sefydliadau statudol yn sylwedyddion ar y bwrdd gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant, Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

3.2 Cyhoeddwyd yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder ym mis Tachwedd 2025 ac yn dilyn hynny adolygwyd y Cynllun Ymateb a rhaglen waith cysylltiedig er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i'r holl argymhellion.

3.3 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2025, galwyd ar y Cabinet i fod yn cynnal nifer o ymchwiliadau pellach yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder.

3.4 Yn yr un cyfarfod bu i'r Arweinydd nodi ei bwriad i gomisiynu adolygiad i drefniadau llywodraethiant yn sgil cyhoeddi'r adroddiad.

3.5 Cyflwynwyd y Cynllun Ymateb newydd i Bwyllgorau Craffu Gofal, Addysg ac Economi, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn yn gynnar yn 2026 cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu yn ffurfiol ar 10 Mawrth 2026.

3.6 Mae'r Cyngor wedi llwyr ymrwymo i wneud popeth posib o fewn ei allu i wella trefniadau diogelu ac mae nifer o gamau gweithredu o fewn y Cynllun Ymateb wedi eu gweithredu eisoes. Adroddir ar y cynnydd hwn yn chwarterol i'r Cabinet gan Gadeirydd annibynnol y Bwrdd Ymateb.

3.7 Mae holl bapurau'r Bwrdd Ymateb ynghyd a gwybodaeth ddefnyddiol am ein cynnydd i'w gweld ar wefan y Cyngor Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb

### Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

3.8 Yn dilyn yr achos troseddol y mae nifer o ymchwiliadau wedi eu cynnal neu eisoes ar waith. Cyflwynir y papur hwn er mwyn comisiynu yn ffurfiol ymchwiliadau pellach er mwyn cefnogi'r dysgu a chryfhau ein trefniadau mewnol

3.9 Mae Adolygiad Ymarfer Plant yn gam arferol ym mhob achos lle mae camdriniaeth neu esgeulustod arwyddocaol wedi digwydd i blentyn er mwyn dysgu gwersi a gwella ymarfer, trefniadau diogelu a systemau yn y dyfodol. Bu i'r adolygiad statudol hwn gael ei gynnal gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'i gadeirio gan Jan Pickles.

3.10 Bu i’r Adolygiad fynd lawer iawn ymhellach na’r arferiad mewn adolygiad o’r fath ac yn dilyn rhoi ystyriaeth ddwys i holl amgylchiadau’r achos penderfynwyd edrych ar bopeth o Ionawr 2017 hyd Medi 2023.

3.11 O fewn y cylch gorchwyl nid oedd cyfyngiadau ar yr hyn y gallai’r ymchwilwyr fod wedi ei ystyried a bu’r gwaith y mynd rhagddo o Fehefin 2024 hyd gyhoeddi ei hadroddiad yn Nhachwedd 2025.

3.12 Er mwyn penderfynu pa ymchwiliadau y dylid ymgymryd â hwy, ystyriwyd amcanion y Cynllun Ymateb yn gyntaf.

3.13 Nodir fod nifer o ffrydiau gwaith ac ymchwiliadau eisoes ar waith neu wedi eu cwblhau, gan gynnwys elfennau o’r Cynllun Ymateb megis

- ymchwiliad troseddol yr heddlu,
- Adolygiad Ymarfer Plant statudol
- Ymchwiliad i ddigwyddiadau 2019,
- Ymchwiliad annibynnol i argymhellion Panel Cwynion Annibynnol,
- Ymchwiliad annibynnol Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i drefniadau’r Cyngor ar gyfer ymdrin â cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Ymchwiliadau Craffu i drefniadau diogelu mewn ysgolion
- Adolygiad ar y cyd gan Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru,
- Awdit o gyfeiriadau Rhan 5.

3.14 Adeiladu ac ymestyn ar yr ymchwiliadau hyn ac eraill er mwyn dysgu gwersi fyddai’r ymchwiliadau pellach a gomisiynir yn sgil yr adroddiad hwn.

3.15 Wrth bwyso a mesur pa ymchwiliadau ychwanegol fyddai’n briodol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i’r gwaith a’r dystiolaeth a gasglwyd eisoes, er mwyn osgoi dyblygu, ac i sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal mewn ffordd sensitif sy’n lleihau’r perygl o aildrawmateiddio dioddefwyr.

**4. Ymchwiliadau pellach i’w comisiynu:**

4.1 Cyn dod i benderfyniad terfynol ar y math o ymchwiliadau pellach y dylid eu comisiynu rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau ac awgrymiadau gan Aelodau etholedig mewn amrywiol bwyllgorau diweddar yn ogystal â sylwadau anffurfiol gan unigolion o gyrff a sefydliadau allanol.

4.2 Gan mai'r Cabinet fydd yn comisiynu yr ymchwiliadau hyn bydd angen adrodd yn ôl i ystod o wahanol fforymau e.e. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, i Bwyllgor Craffu neu i'r Panel Strategol Diogelu – fe fydd y llwybrau hynny yn dibynnu ar natur y gwaith a'r ymchwiliad dan sylw.

**4.3** Yn dilyn ystyriaeth ofalus argymhellir y dylid cynnal yr ymchwiliadau pellach canlynol:

**Adolygiad llywodraethiant**

4.4 Yn unol â datganiad Arweinydd y Cyngor yng nghyfarfod y Cyngor ar 4 Rhagfyr 2025, bydd y Cabinet yn comisiynu adolygiad i drefniadau llywodraethiant y Cyngor mewn perthynas â'r cyfleoedd a gollwyd ac argymhellion yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a sefydlu os oes gwersi i'w dysgu.

4.5 Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal gan ymchwilydd annibynnol allanol, ac fe fydd yn ystyried y cyfleoedd a gollwyd, a oedd trefniadau adrodd i mewn i brosesau democrataidd y Cyngor yn berthnasol ac wedi cael eu dilyn. Bydd hefyd yn ystyried a gafodd pryderon neu wybodaeth eu huwchgyfeirio drwy'r sianeli cywir ar yr adeg, ac a oes angen adolygu cryfder a digonolrwydd trefniadau corfforaethol yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad.

4.6 Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau gan ymchwilydd allanol a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nhymor yr Hydref 2026.

**Diwylliant**

4.7 Mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi datgan ei fwriad i fod yn cynnal adolygiad o ddiwylliant gwaith y Cyngor ynghyd â'n Cynllun Ffordd Gwynedd a bydd yr adolygiad hwn yn adrodd i'r Cabinet ar hyd y daith. Bydd hefyd yn ceisio mewnbwn yr holl Aelodau Etholedig yn ogystal â staff y Cyngor.

4.8 Bydd yr adolygiad yn tynnu at ei gilydd materion diwylliant gwaith drwy nifer o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys:

- arolwg llais staff,
- adborth uniongyrchol drwy brosesau hunanasesu a pherfformiad
- pryderon sy'n cael eu codi gan staff drwy lwybr canu'r gloch
- ymgysylltu rheolaidd drwy rhwydwaith rheolwyr
- sesiynau staff
- prosesau adnoddau dynol

- tynnu ar ganfyddiadau adolygiadau gan sefydliadau allanol gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru ac Asesiad Perfformiad gan Banel annibynnol.

Ceir cyfle i adeiladu ar hyn oll drwy'r adolygiad o'n diwylliant gweithio a'r cynllun Ffordd Gwynedd.

4.9 Caiff yr Adolygiad hwn ei arwain gan y Prif Weithredwr, gyda mewnbwn gan Aelodau Etholedig, staff a rhanddeiliaid eraill. Gan fod etholiadau lleol i'w cynnal ym mis Mai 2027, caiff hyn effaith ar y rhaglen waith i gyflawni'r gwaith hwn. Bwriedir rhaglennu'r gwaith yma yn ddau ddarn, gan sicrhau fod yr adolygiad ei hun wedi ei gyflawni cyn diwedd 2026 ac yna cynnal sesiynau pellach gyda Aelodau a fydd yn newydd i'r Cyngor ym Mai 2027. Bwriedir cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad i'r Pwyllgor Craffu yn ystod yr Hydref cyn gofyn i'r Cabinet ei fabwysiadu cyn diwedd y flwyddyn.

**Effeithiolrwydd Y gyfundrefn Llywodraethu Ysgolion**

4.10 Amlygodd Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder fod y rhaniad cyfrifoldebau statudol ddim wastad yn glir a bod peth dryswch yn nealltwriaeth gwahanol rhanddeiliaid o ran lle roedd gwahanol gyfrifoldebau yn gorwedd mewn rhai agweddau.

4.11 Mae'r drefn bresennol lle mae Cyrff Llywodraethol yn gyfrifol am faterion rheoli a llywodraethu ysgolion, ac yna'r disgwyliad i'r Awdurdod Addysg fod yn cefnogi yn gallu bod yn annelwig ar adegau, a hefyd yn rhwystredig o'r ddwy ochr.

4.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu ysgolion a disgwylir canlyniad yr adolygiad hwn yn fuan. Rydym wedi croesawu'r adolygiad hwn ac wedi cynnig i Lywodraeth Cymru fod Cyngor Gwynedd yn rhan o'r gwaith, gan ein bod eisoes wedi bod yn glir yn gyhoeddus fod y drefn bresennol wedi "torri" ac felly'n awyddus i weld newidiadau. Yn ogystal, rydym wedi gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ynghylch eu cylch gorchwyl cychwynnol, gan bwysleisio'r angen am gynrychiolaeth ehangach o ysgolion a chyd-destunau (gan gynnwys ysgolion llai), ac rydym wedi parhau i gyfathrebu ar hyn mewn ffordd ddwyffordd.

4.13 Tra'n disgwyl am ganlyniad yr adolygiad cenedlaethol byddwn hefyd yn cynnal ein adolygiad ein hunain. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar:

- y gyfundrefn llywodraethu ysgolion presennol a sut mae'n cael ei weithredu yng Ngwynedd gan ganolbwyntio ar y gyd-berthynas rhwng ysgol a'r Adran Addysg

- pa mor effeithiol yw'r gyfundrefn bresennol ac adnabod unrhyw rwystrau ymarferol mae'n ei greu i ysgolion a'r Adran Addysg?

4.14 Unwaith y bydd yr adolygiad cenedlaethol wedi dod i gasgliadau, bydd modd i ni sefydlu os fydd unrhyw addasiadau i'r gyfundrefn o gymorth i oresgyn unrhyw faterion fydd wedi eu hadnabod yn ein adolygiad mewnol ein hunain.

4.15 Sefydlir y briff manwl ar gyfer y gwaith hwn mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Addysg a byddwn yn comisiynu ymgynghorydd allanol i gyflawni'r gwaith yma gan anelu i gyflwyno'r casgliadau i'r Pwyllgor Craffu cyn diwedd 2026.

**Dealltwriaeth systemig o ran gweithredu Rhan 5**

4.16 Ers cyhoeddi Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder (a chyn hynny hefyd) mae newidiadau wedi digwydd i'n trefniadau delio gyda chyfeiriadau rhan 5, sef cyfeiriadau am unigolion sydd mewn swydd o ymddiriedaeth ('*person in a position of trust*'), yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

4.17 Gan fod yr angen i gryfhau ein trefniadau wedi ei amlygu byddwn yn cynnal Adolygiad o bob cyfeiriad dyblyg Rhan 5 yn ôl i 2020 ac yna edrych ymhellach na hynny ar gyfer yr unigolion hynny lle daw unrhyw gyfeiriadau dyblyg i'r amlwg. Mae rhan helaeth y gwaith hwn eisoes wedi ei gwblhau a bydd yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu yn Hydref 2026.

**Sefydlu ffeithiau a dysgu gwersi diogelu mewn unrhyw ysgol dan arweinyddiaeth y troseddwr.**

**4.18** Bydd sgôp yr adolygiad Rhan 5 a gyfeirir ato uchod yn gael ei ehangu ymhellach ar gyfer unrhyw ysgol y bu i'r troseddwr ei arwain ac fe fydd y gwaith yn edrych ar a fu patrwm o gyfeiriadau am unrhyw un yn yr ysgolion dan sylw, neu oedd faterion diogelu sylweddol wedi eu huchafu tra roedd ysgol yng ngofal y troseddwr.

**4.19** Byddwn yn mynd yn ôl mor bell ag mae cofnodion a gwybodaeth yn caniatáu i ni fynd. Mae Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder eisoes wedi rhoi ystyriaeth i gyd destun hyn i raddau wrth osod eu dyddiad cychwyn o Ionawr 2017.

**4.20** Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal gan ymgynghorydd allanol a bydd yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu yn yr Hydref 2026.

**Ymgysylltu â chyrff eraill.**

**4.21** Er nad oes pwerau gan Gyngor Gwynedd i fod yn ymchwilio i rôl eraill yn hyn oll, mae ymrwymiad clir i fod yn annog eraill i gynnal ymchwiliadau ac ymateb i argymhellion Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder sy'n berthnasol i sefydliadau eraill.

**4.22** Gyda hynny mewn golwg rydym eisoes wedi cyfathrebu gyda nifer sefydliadau eraill allasai fod yn berthnasol i ddysgu am eu camau ymateb hwy. Byddwn yn parhau gyda'r cyfathrebu yma er mwyn casglu os oes unrhyw wybodaeth bellach ganddynt a fyddai o fudd i ni fel Cyngor ac i drefniadau diogelu yn gyffredinol.

**Ymchwiliadau tu hwnt i rymoedd Awdurdod Lleol**

**4.23** Cydnabyddir fod cyfyngiadau clir ar sgôp a phwerau y cyngor o ran rhai elfennau sy'n codi o'r adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder. Nid oes gan y

Cyngor yr awdurdod na'r pwerau statudol i ymchwilio i bob corff, proses neu benderfyniad perthnasol a allai fod wedi dylanwadu ar y sefyllfa dros y cyfnod dan sylw, nac ychwaith i orfodi rhai nad ydynt yn gyflogedig i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliadau pellach.

**4.24** Gyda hynny mewn golwg, er bod y Cyngor yn rhoi camau gweithredu pendant mewn lle drwy'r Cynllun Ymateb ac yn comisiynu ymchwiliadau pellach sydd o fewn ei rymoedd drwy gyfrwng yr adroddiad hwn, pwysleisir na all y camau hynny, ar eu pennau eu hunain, ateb bob cwestiwn allasai fod yn berthnasol. Ymchwiliad Cyhoeddus fyddai'r trywydd ar gyfer ymchwilio ymhellach na'r pwerau sydd gan y Cyngor hwn ac mae'r Cabinet eisoes wedi galw hynny.

## 5. Camau nesaf

5.1 Yn dilyn derbyn cadarnhad y Cabinet, bwriedir symud ymlaen yn syth i gomisiynu'r ymchwiliadau sydd heb gychwyn hyd yma a phenodi ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo cyflawni hyn oll.

## 6. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 6.1 Prif Swyddog Cyllid

Bydd modd i elfen o'r gwaith gael ei gyflawni o fewn cyllidebau adrannol, tra fod adnoddau ychwanegol ar sail parhaol ac un-tro yn ofynnol ar gyfer yr elfen arall o'r gwaith. Mae cyllid ychwanegol i gyllido'r costau parhaol ychwanegol wedi cael eu hystyried wrth lunio cyllideb 2026/27 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2026, ac mae bidiau un-tro am arian ychwanegol i ymdrin â'r costau unwaith ac am byth wedi ei gymeradwyo yn Cabinet 10 Mawrth 2026. Fel rwyf wedi adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flaenorol, rwyf yn fodlon na fydd ystyriaethau ariannol yn rwystr rhag cyflawni'r cynllun ymateb Cyfiawnder Trwy Ein Dewder.

### 6.2 Swyddog Monitro